

## F12. Gwella perfformiad eich sefydliad

### Crynodeb o'r Uned

#### Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gwelliant parhaus perfformiad cyffredinol y sefydliad. Pwysleisir nodi a gweithredu newidiadau a fydd yn ychwanegu gwerth ym marn cwsmeriaid a budd-ddeiliaid allweddol eraill.

#### Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer uwch reolwyr.

#### Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad**, **C3. Annog arloesedd yn eich sefydliad** a **F10. Datblygu sefydliad sy'n canolbwyntio ar ei gwsmeriaid** yng nghyffres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

#### Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth wella perfformiad y sefydliad. Mae cynnwys manwl cyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn.

- Rheoli gwybodaeth
- Cyfathrebu
- Meincnodi
- Meddwl yn systematig
- Dadansoddi
- Gwneud penderfyniadau
- Blaenoriaethu
- Arweinyddiaeth
- Cyflwyno gwybodaeth
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Cynllunio
- Gwerthuso
- Cynnwys pobl eraill
- Meddwl yn strategol

## **F12. Gwella perfformiad eich sefydliad**

### **Canlyniadau perfformiad effeithiol**

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Sefydlu mesurau dilys a phriodol i werthuso perfformiad eich sefydliad.
2. Sefydlu systemau i gasglu ac asesu gwybodaeth am berfformiad cyffredinol y sefydliad a defnyddio'r darganfyddiadau i nodi cyfleoedd i wella perfformiad y sefydliad.
3. Sefydlu diwylliant yn y sefydliad drwyddo draw lle bydd pobl yn sôn yn agored am broblemau posibl a rhai go iawn o ran perfformiad, a lle byddan nhw'n awgrymu cyfleoedd i wella.
4. Meincnodi perfformiad eich sefydliad o'i gymharu â sefydliadau eraill a ddetholwyd yn ofalus, a gweithredu ar sail y darganfyddiadau.
5. Sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y gellir gwneud gwelliannau, neu sut mae gwelliannau wedi'u gwneud, yn cael eu rhannu yn y sefydliad drwyddo draw.
6. Sicrhau bod unrhyw welliannau sy'n cael eu gwneud yn unol â gweledigaeth ac amcanion y sefydliad.
7. Dangos bod y gwelliannau a wnaed wedi lleihau'r bwlch rhwng yr hyn mae'ch cwsmeriaid a budd-ddeiliaid allweddol eraill am ei gael a'r hyn mae cynhyrchion a/neu wasanaethau eich sefydliad yn ei gyflenwi mewn gwirionedd.
8. Dangos mai'r gwelliannau a wnaed yw'r rheiny y nodwyd y bydden nhw'n dod â'r budd mwyaf i'r sefydliad, ei gwsmeriaid a budd-ddeiliaid allweddol eraill.

### **Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol**

1. Byddwch yn ceisio yn gyson i wella perfformiad.
2. Byddwch yn datblygu systemau i gasglu a rheoli gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac yn foesegol.
3. Byddwch yn mynd ati i herio'r sefyllfa sydd ohoni ac yn ceisio dod o hyd i well dewisiadau.
4. Byddwch yn dangos eich bod yn deall gwahanol gwsmeriaid a'u hanghenion yn eglur.

5. Byddwch yn sicrhau bod gwybodaeth briodol ar gael yn ddiymdroi i'r rheiny y mae ei hangen arnyn nhw ac sydd â hawl i'w chael.
6. Byddwch yn cyfleu gweledigaeth sy'n cynhyrchu cyffro, brwdfrydedd ac ymrwymiad.
7. Byddwch yn cynhyrchu ac yn cydnabod atebion dychmygus ac arloesol.
8. Byddwch yn sensitif i anghenion a buddiannau budd-ddeiliaid ac yn rheoli'r rhain yn effeithiol.
9. Byddwch yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau arwain sy'n briodol i wahanol bobl a gwahanol sefyllfaoedd.

## **F12. Gwella perfformiad eich sefydliad**

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth**

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

### **Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth**

1. Yr egwyddorion sy'n cefnogi gwella'r sefydliad
2. Pwysigrwydd sefydlu mesurau dilys a phriodol i werthuso perfformiad eich sefydliad
3. Sut i sefydlu systemau i gasglu ac asesu gwybodaeth am berfformiad cyffredinol y sefydliad a defnyddio'r darganfyddiadau i nodi cyfleoedd i wella perfformiad y sefydliad
4. Sut i feincnodi perfformiad eich sefydliad o'i gymharu â sefydliadau eraill a gweithredu ar sail y darganfyddiadau
5. Gwerth diwylliant sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid
6. Pwysigrwydd datblygu diwylliant sy'n gwella yn barhaus a sut i gynnwys pobl eraill wrth gyflawni hyn
7. Pwysigrwydd dod o hyd i achos ac effeithiau problemau a newidiadau
8. Ffyrdd o fesur effaith gwelliannau
9. Egwyddorion a phrosesau cyfathrebu effeithiol a sut i gymhwyso'r rhain

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector**

1. Y sector a'r farchnad mae'ch sefydliad yn gweithio ynddyn nhw
2. Yr amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a thechnegau i gasglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r sector mae'ch sefydliad yn gweithio ynddo
3. Tueddiadau a datblygiadau perthnasol yn y sector

### **Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun**

1. Gweledigaeth, amcanion a chynlluniau cysylltiedig eich sefydliad
2. Strwythur, gwerthoedd a diwylliant eich sefydliad.
3. Sut bydd eich sefydliad yn ychwanegu gwerth trwy gyflenwi ei gynhyrchion, ei wasanaethau a'i brosesau
4. Cwsmeriaid a budd-ddeiliaid allweddol eraill eich sefydliad, a'u hanghenion
5. Mesurau perfformiad sy'n berthnasol i'ch sefydliad chi
6. Dulliau o gasglu gwybodaeth sy'n addas i'ch sefydliad chi
7. Ffynonellau gwybodaeth ffurfiol ac anffurfiol sy'n berthnasol i'ch sefydliad